# Monmouthshire Select Committee Minutes

**Pwyllgor Craffu Oedolion**
**Remote Attendance**
**Dydd Mercher, 2ail Mawrth, 2022, 10.00 am**

| CYNGHORWYR YN BRESENNOL | SWYDDOGION YN BRESENNOL |
|---|---|
| Cynghorydd Sirol S. Howarth (Cadeirydd)<br>Cynghorydd Sirol L. Brown (Is-gadeirydd)<br><br>Cynghorydd Sirol: R. Edwards, M.Groucutt, R. Harris, M. Powell, S. Woodhouse, M. Lane<br><br>T. Crowhurst | Eve Parkinson, Pennaeth Gwasanaethau i Oedolion<br>Hazel Ilett, Rheolwyr Craffu<br>Robert McGowan, Swyddog Polisi a Chraffu<br>Stephen Griffiths, Strategy & Policy Officer<br>Jonathan Davies, Rheolwr Cyllid Cyfrifeg Canolog<br>Cath Fallon, Pennaeth Economi a Menter<br>Tyrone Stokes, Rheolwr Cyllid<br>Ian Bakewell, Rheolwr Tai ac Adfywio<br>Rebecca Creswell, Homeless Project Officer |

1. **Datganiadau o Fuddiant**

   Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant

2. **Fforwm Agored i'r Cyhoedd.**

   Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau cyhoeddus

3. **Gofal Cartref**

   Gwnaed y cyflwyniad gan Eve Parkinson ac atebodd gwestiynau'r aelodau gyda Tyrone Stokes.
   **Heriau:**
   *A oes gwahaniaethau rhwng pecynnau gofal a gofal cartref? A ydym yn gweithio law yn llaw ag awdurdodau iechyd neu ar wahân?*
   Yn bennaf, yr un peth yw pecynnau gofal a gofal cartref. Byddem yn asesu rhywun; mae'r mwyafrif yn dod o dan yr awdurdod lleol oni bai ei fod yn ofal iechyd parhaus. Yn dilyn asesiad, darperir y pecyn gofal naill ai gan ein gwasanaethau gofal cartref mewnol neu ddarparwyr a gomisiynir. Galluogi, ail-alluogi a'r achosion mwy cymhleth yw'r gwasanaeth mewnol ar y cyfan.
   *A ydym yn rhannol gyfrifol am flocio gwelyau os nad oes gennym ddigon o staff i wneud yr asesiadau'n gyflymach?*
   Mae ein staff yn mynd i mewn i'r ysbytai i wneud yr asesiadau. Ond ar ôl yr asesiad, pan benderfynir bod angen pecyn gofal ar y person dan sylw y mae'r maen tramgwydd, lle na allwn ddarparu'r hyn y mae'r asesiad wedi'i benderfynu. Mae'r system gyfan yn gymhleth iawn. Nid yw mor syml â rhywun yn cael eu derbyn i'r ysbyty ond yna ni allwn eu rhyddhau oherwydd nad oes gennym becyn gofal. O safbwynt Llywodraeth Cymru weithiau ni ddylai pobl fod wedi cael eu

derbyn i'r ysbyty – mae lefel o geisio osgoi risg o ran derbyniadau – ac mae'r dystiolaeth yn amlwg iawn, cyn gynted ag y derbynnir rhywun sydd â sawl cyflwr, neu sy'n hŷn, maent yn dirywio'n gyflym iawn. Mae rhai pobl sy'n mynd i'r ysbyty nad oes angen dim arnynt, ac erbyn iddynt fod yn barod i'w rhyddhau, mae angen llawer o gymorth arnynt.

*Felly, mewn ysbyty gofal critigol h.y. Y Faenor, bydd yr asesiad yn cael ei wneud pan fyddant yn trosglwyddo o'r fan honno i ysbyty arall, e.e. Nevill Hall?*

Na, rydym yn asesu yn Y Faenor hefyd.

*Felly gellir tybio bod therapyddion galwedigaethol yn yr ysbyty yn gwneud asesiad? A yw'r asesiad gan y Gwasanaethau Cymdeithasol yn rhan o hynny? Sut mae'n gweithio o ran rhyddhau pobl o wardiau?*

Mae'n amrywio ar draws y sir: mae model ychydig yn wahanol yn Nevill Hall gan fod Therapyddion Galwedigaethol y Bwrdd Iechyd yn trosglwyddo i'n tîm – felly mae'n wasanaeth mewngymorth yn Nevill Hall, ac rydym yn gweithio gyda'n pobl ein hunain. Felly, ar y cyfan, mae ein gweithwyr cymdeithasol ein hunain, therapyddion galwedigaethol a nyrsys yn gwneud gwaith mewngymorth yn yr ysbyty. Yn Ysbyty Brenhinol Gwent mae'r model yn wahanol. Mae gennym Weithiwr Cymorth Adsefydlu a nyrs Cyswllt Rhyddhau o dîm Cas-gwent yn mynd i'r ysbyty i nodi'r bobl o Sir Fynwy a'u rhyddhau. Yn ysbytai cymunedol Cas-gwent a Bro Mynwy mae ein tîm integredig yn gweithio'n llwyr ynddynt.

*Yn y tabl ar dudalen 7, mae 104 o bobl heb yn aros am ofal yn y cartref. Sut mae'n nhw'n cael eu cefnogi yn y cyfamser?*

Yn aml, teulu a gofalwyr sy'n eu cefnogi. Mae'n fater o unrhyw gymorth ychwanegol, seibiant neu ddarpariaeth gwasanaeth dydd ond mae'n heriol iawn. Os bydd y sefyllfa'n gwaethygu, rydym yn ceisio gwneud ein gorau i dynnu rhywbeth at ei gilydd, ond nid oes gennym y staff. Rydym yn cael sgyrsiau dyddiol gyda'r ysbyty i ganfod pa risg y mae pobl yn ei wynebu pan gânt eu rhyddhau.

*O ran gofal cartref, yng Nghymru mae cap ar yr hyn y mae'n rhaid i deulu ei gyfrannu. Efallai y bydd goblygiadau ariannol yn gysylltiedig â mynd i gartref gofal oherwydd, yn ôl pob tebyg, nid yw'r cap yn berthnasol? Sut y byddai hynny'n gweithio'n ariannol i bobl sy'n ei chael yn anodd?*

Mae'r asesiad ariannol wedi'i osod fel deddf gyfreithiol yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014. Mae rhywun y nodwyd bod angen gofal arnynt yn cael asesiad ariannol. Ar gyfer gwasanaethau dibreswyl (sy'n cynnwys gofal cartref), mae uchafswm tâl o £100 yr wythnos y gallwn ei godi. Caiff hynny ei gynnal gan Lywodraeth Cymru yn y flwyddyn ariannol nesaf, felly'r mwyaf y bydd yn rhaid i rywun ei dalu yw £100. Nid oes cap o ran gofal preswyl. Felly, efallai y bydd angen penodol ar rywun, lle mae angen iddynt fynd i gartref gofal, ond os yw'r asesiad ariannol yn penderfynu y gall fforddio talu am y gofal hwnnw ei hun, ni fydd ganddynt hawl i unrhyw gymorth ariannol gan yr awdurdod lleol. Mae hwn weithiau'n arwain at wrthdaro h.y. pan fydd rhywun yn ddigon ffit i gael eu rhyddhau o'r ysbyty, mae'r asesiad ariannol yn dweud bod angen iddynt fynd i gartref gofal, ond y gall fforddio talu ei hun. Mae gwasanaethau iechyd i'w cael am ddim ond cyn gynted ag y bydd angen ymyrraeth gofal cymdeithasol, codir tâl amdanynt o dan y Ddeddf.

*Hyd yn oed mewn cartrefi gofal, mae elfen o gymorth y dylai'r bwrdd iechyd gyfrannu ati.*

Oes. Gyda chartrefi gofal mae dau lwybr: gofal preswyl neu ofal nyrsio, sef yr hyn rydych chi'n cyfeirio ato. Mae gofal iechyd parhaus yn cael ei ariannu 100% gan ofal iechyd. Os oes angen i rywun fynd i gartref gofal ond gydag elfen fach o ddarpariaeth nyrsio, gelwir hynny'n 'ofal nyrsio

am ddim'. Bydd yr awdurdod iechyd yn talu am yr elfen gofal nyrsio, ac mae tâl atodol y mae'r bwrdd iechyd yn ei dalu, ond mae costau llety yn daladwy gan yr awdurdod lleol, sef yr elfen asesiad ariannol.

*Gan fod y broses mor gymhleth, a yw'n fwy costus? A ellid ei symleiddio?*

Ydy, mae'n gymhleth, ac mae wedi bod felly erioed, gan fynd yn fwy costus ers i'r Ddeddf ddod i rym yn 2014. Mae gennym gyfraddau gwahanol ar gyfer yr uchafswm o'i gymharu â Lloegr, sy'n golygu bod trigolion Lloegr yn defnyddio cartrefi gofal Sir Fynwy, sy'n creu cymhlethdod ychwanegol.

*Ond gall hyn gymryd amser, yn enwedig os oes apeliadau yn erbyn yr asesiad ariannol, gan ddod yn ôl at flocio gwelyau. A ydym yn dweud nad yw'r broses mor syml ag y dylai fod?*

Rhaid i ni sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'r gyfraith, a rhan ohoni yw cynnal asesiad sy'n seiliedig ar brawf modd i benderfynu a all pobl fforddio talu am eu gofal eu hunain. Rydym yn ceisio gwneud hyn cyn gynted â phosibl, ond mae angen i ni sicrhau ei fod yn gadarn, yn gyfartal ac yn deg. Mae ymgysylltu da â'r teulu yn bwysig iawn, gan gynnwys bod yn onest weithiau. Mae hawl i wrthod yr asesiad ariannol ond mae hynny'n golygu, os yw'r person yn mynd i ofal preswyl, eu bod yn ildio unrhyw gymorth ariannol gan yr awdurdod lleol. Y rhai sydd yn yr ysbyty sy'n aros am gartrefi gofal preswyl neu gartrefi gofal nyrsio fel arfer yw'r rhai nad oes ganddynt y gallu i wneud y penderfyniad hwnnw eu hunain, sy'n ychwanegu haen arall o gymhlethdod. Mae dod i'r penderfyniad er lles pennaf y person hwnnw yn cynnwys y teulu, a phan nad oes atwrneiaeth arhosol, mae'n cyrraedd y llysoedd – ni allwn hwyluso'r broses o ryddhau'r claf nes bod y llys wedi gwneud penderfyniad.

*Ydyn ni'n cael llawer o apeliadau?*

Rydyn ni'n cael llawer, gyda chynnydd yn ddiweddar. Mae cwmnïau cyfreithiol a chynghorwyr ariannol yn cymryd rhan gynyddol. Cyn 2014, efallai bod 1-2 apêl y mis, nawr mae'n 3-4 y dydd. Mae hyn yn cymryd llawer o amser ac yn ddrud, ond mae gan bobl yr hawl i herio.

*Onid yw'n bryd edrych ar ba mor gymhleth yw pethau, a dychwelyd at system symlach, yn enwedig o ran darparu pethau ein hunain yn hytrach na phrynu gwasanaethau gan gwmnïau preifat?*

Er ein bod yn rhoi rhywfaint o'n gofal i gontractwyr allanol, mae'n ffordd i ni gyflawni ein dyletswyddau. Mae gofalwr sy'n mynd i mewn yn gwneud hynny ar ran Cyngor Sir Fynwy. Rydym wedi bod yn cyflogi mwy o ofalwyr mewnol dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, cymaint felly fel ei bod, yn y rhagolwg ym mis 9, yn un o'r rhesymau pam rydym yn parhau i orwario mewn Gofal Cymdeithasol i Oedolion. Mae cyfraniadau pensiwn yn ffactor yma: yn y sector preifat mae cyfraniad y cyflogwr yn 3% ond yng Nghyngor Sir Fynwy mae'n debycach i 23-4%, felly ar unwaith mae mwy o orbenion o gyflogi ein gofalwyr ein hunain. Hefyd, os yw'r sector allanol yn ei chael yn anodd recriwtio a chadw gofalwyr, yna byddwn ninnau hefyd. Mae'n dod yn ôl at y ffaith nad yw gofal cymdeithasol yn cael ei ystyried yn ddiwydiant deniadol i bobl ymuno ynddo – mae swyddi mewn archfarchnadoedd a bariau yn aml yn talu mwy, er enghraifft. At hynny, mae'n rhaid i ofalwr fod wedi'u cofrestru h.y. wedi cymhwyso, ond nid oes angen cymhwyster ar y swyddi hynny sy'n talu'n well.

*A ydym yn gwybod a yw'r cwmnïau preifat a ddefnyddiwn yn ariannol gadarn, neu a oes unrhyw risg y gallent fynd i'r wal?*

Ar hyn o bryd nid ydym yn ymwybodol o unrhyw gwmnïau sydd ar y dibyn. Fodd bynnag, maent o dan bwysau ariannol eithriadol sy'n cael eu cuddio ar hyn o bryd gan Gronfa Galedi Covid –

pan ddaw hynny i ben ymhen 29 diwrnod cawn ddarlun cliriach o'r heriau. Rydym yn cynnal trafodaethau cyson â'r darparwyr i ddeall unrhyw anawsterau sydd ganddynt. Weithiau rydym wedi cael dychweliadau sylweddol gan gwmnïau nad ydynt ar y dibyn ond sydd wedi penderfynu nad yw gweithio yn Sir Fynwy yn hyfyw iddynt mwyach; maent felly wedi rhoi rhybudd i ni ar rai pecynnau gofal, y mae rhai ohonynt yn sylweddol, gan greu llawer o straen i fynd i'r afael â hwy. Yn aml, nid yw'n gost-effeithiol i gwmnïau ddod â'u gofalwyr i Sir Fynwy o Flaenau Gwent, dyweder, yn hytrach na'u bod yn aros yn y sir honno i weithio.

*A oes unrhyw wirionedd yn yr honiad y gall rhywun adael yr ysbyty heb gael asesiad?*

Rydym yn cadw llygad ar bob un o'n cleifion ysbyty: gwyddom pwy sy'n cael eu derbyn a phryd, gyda rhestrau'n cael eu hanfon atom bob dydd. Rydym yn weithgar iawn yn y sgyrsiau am y risgiau wrth ryddhau, pa gymorth sydd ganddynt gartref, ac ati. Rydym yn gweithio'n galed i sicrhau y gallwn ddarparu'r adnoddau gorau posibl iddynt.

*A ellir darparu hyfforddiant i aelodau o'r teulu sy'n darparu gofal? Mae cyfleusterau cam-i-lawr wedi'u darparu ar gyfer cleifion sy'n gadael Ysbyty Brenhinol Gwent. Beth am y rheini yn Sir Fynwy?*

Rydym yn gweithio'n agos gydag aelodau'r teulu, yn enwedig o ran codi a chario ac offer. Ar hyn o bryd mae cynllun o'r enw Step Closer To Home lle mae'r bwrdd iechyd yn ariannu pobl sy'n mynd i leoliad preswyl fel cam i lawr o'r ysbyty. Felly, bydd yr ysbyty'n rhyddhau'r person i gartref, nid o reidrwydd yn Sir Fynwy. Mae'r bwrdd iechyd yn darparu'r cyllid am 6 wythnos, ac ar ôl hynny os nad ydym wedi dod o hyd i becyn gofal o hyd, rydym yn ceisio asesu'r person er mwyn deall eu hanghenion hirdymor, p'un a oes angen iddynt aros yn y lleoliad preswyl neu chwilio am opsiynau eraill. Mae'n sefyllfa gymhleth iawn. Mae'r cyllid ar gyfer Step Closer to Home yn dod i ben ddiwedd mis Mawrth; bydd yn rhaid i ni ystyried bryd hynny beth fydd yr opsiynau eraill. Rydym yn cael llawer o drafodaethau gyda chydweithwyr ynghylch sut i atal rhywun rhag mynd i'r ysbyty yn y lle cyntaf: pe baem yn cael cynnig mwy rhagweithiol a chadarn yn y gymuned yna gallem atal llawer o hyn.

**Crynodeb y Cadeirydd:**

Diolch i swyddogion am yr adroddiad hwn a'u hymdrechion parhaus mewn maes anodd iawn. Mae gan y pwyllgor bryderon mawr ynghylch recriwtio a'r gallu i ddenu staff i ofal cymdeithasol. Mae'r aelodau wedi mynegi eu hanfodlonrwydd yn gryf o ran cymhlethdod y system ond maent yn ddiolchgar iawn i swyddogion am eu gwaith caled a'u hymroddiad wrth weithio ynddi.

Tynnodd Peter Davies, y Dirprwy Brif Weithredwr a'r Prif Swyddog Adnoddau, sylw at yr her o ran fforddiadwyedd. Rhoi Gofal Cymdeithasol i Oedolion ar sail gynaliadwy yw un o amcanion y gyllideb ddrafft. Mae gan Gyngor Sir Fynwy risg gyllidebol sylweddol oherwydd breuder y system. Mae'n iawn fod y rhai sy'n darparu gofal yn cael eu talu ar gyfradd addas; mae ymdrechion clir gan Lywodraeth Cymru i wneud hyn, ac i geisio denu a chadw'r cyflenwad cywir o lafur o safon. Mae gwneud/parhau i wneud gwaith wedi'i dargedu yn ein cangen gomisiynu. Rydym wedi ceisio sicrhau bod Cymdeithas Trysoryddion Cymru, cyllid llywodraeth leol a CLlLC yn cyd-fynd yn agosach â gwaith y Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol, gyda'r nod o gydweithio i lunio sut fath o beth fyddai system gynaliadwy ar gyfer Gofal Cymdeithasol i Oedolion. Rydym am gyflwyno achos busnes gwybodus iawn i Lywodraeth Cymru, i gymryd rhan mewn sgwrs ystyrlon am symud Gofal Cymdeithasol i Oedolion i ddyfodol cynaliadwy.

4. **Strategaeth Rhaglen Cymorth Tai a Digartrefedd**

Cyflwynodd Stephen Griffiths yr adroddiad ac atebodd gwestiynau'r aelodau gydag Ian Bakewell a Rebecca Creswell.

**Heriau:**

*A fydd y drafft hwn yn mynd yn ddrafft llawn ac yna'n benderfyniad gan y cyngor llawn?*

Bydd, mae gennym ganiatâd gan Lywodraeth Cymru i gytuno arno'n ôl-weithredol (yn nhymor newydd y cyngor, ym mis Mehefin neu fis Gorffennaf).

*A fyddai ymyrraeth gynnar yn gweithredu ar y cyd â landlordiaid cymdeithasol cofrestredig? Sut y byddech yn canfod y rheini sydd mewn perygl, er mwyn ymyrryd yn gynnar?*

Canfod aelwydydd sy'n cael problemau a allai arwain at ddigartrefedd yw'r her fwyaf. Rydym yn edrych ar ffyrdd o gasglu data a chasglu gwybodaeth gan lawer o sefydliadau, er enghraifft, pa mor agored i niwed yw aelwydydd sy'n profi ôl-ddyledion rhent. Gofynnir i'r rhai sy'n cael lwfans tai lleol am Daliad Tai Dewisol – mae hynny'n arwydd o sefyllfa a allai arwain at ddigartrefedd. Os tynnir ein sylw at hynny'n gynnar, yna gallwn ymyrryd yn gynnar i nodi anghenion a'r cymorth angenrheidiol. Rydym hefyd wedi cysylltu â phob asiant tai yn Sir Fynwy i roi cyfle iddynt dynnu sylw at unrhyw un o'u tenantiaid sy'n dechrau profi risg lefel isel. Rydym am gysylltu ag ymgyrch tlodi'r Cyngor hefyd i annog unrhyw un sy'n profi problem i siarad â ni.

*A yw'n werth cynnal arolwg o'r bobl ifanc a'r rhai ag anghenion cymhleth, i ganfod sut y daethant i fod yn ddigartref, i helpu gyda gwaith atal?*

Rydym yn edrych ar system i ganfod y rhai a allai ddod yn ddigartref er mwyn creu llwybr tai i ragweld achosion posibl o ddigartrefedd.

*A yw'n bosibl newid yr amgylchiadau fel bod landlordiaid yn cael eu talu'n uniongyrchol o fudd-daliadau, yn hytrach na chan y person sy'n cael budd-daliadau?*

Mae hyn yn anoddach nawr oherwydd bod yr Adran Gwaith a Phensiynau wedi newid y rheolau sy'n ymwneud â chredyd cynhwysol. Mae trefniant talu uniongyrchol yn bodoli ond mae'n anoddach nag yr arferai fod.

*O ran atal, a allwn gymharu ein sefyllfa ni ag awdurdodau eraill, a chydweithio ar feysydd o brofiad penodol?*

Strategaeth Gwent oedd y strategaeth ddigartrefedd flaenorol ond roedd y materion flwyddyn yn ôl mor ddifrifol fel bod pob awdurdod lleol am ganolbwyntio ar ei sefyllfa a'i ymateb ei hun, a arweiniodd at y strategaethau'n unigol. Ond rydym yn rhwydweithio'n agos iawn â'n cymdogion – mae cyfarfod heddiw rhwng yr awdurdodau lleol, er enghraifft – sy'n gyfleoedd i rannu a chymharu nodiadau. Mae cynllun gan Went i gefnogi'r rhai sy'n gadael y carchar. Wrth i bethau ddechrau dod nôl i drefn, bydd cydweithio ar ôl Covid yn cynyddu ymhellach.

*Mae llawer o bwysau ar deuluoedd yn awr yn deillio o'r broblem yn ymwneud â chostau byw. Efallai, os oes gwasanaeth cyfryngu, na fyddai angen iddynt symud o lety dros dro i lety parhaol?*

Mae gennym weithwyr cynhwysiant ariannol yn y tîm opsiynau tai i gefnogi pobl i wneud y gorau o'u gwariant ac incwm. Mae'r Porth Cymorth Tai hefyd yn gwneud llawer o'r gwaith hwn, fel y mae Cyngor ar Bopeth, felly mae'n rhan allweddol o'r hyn a wnawn. Wrth geisio canfod llety i rywun rydym yn gwneud asesiad fforddiadwyedd, er mwyn eu rhoi mewn llety sy'n gynaliadwy

yn ariannol. Mae Gwasanaeth Cyfryngu Sir Fynwy, sydd ddim mor amlwg bellach, ond yn seiliedig ar yr awgrym hwn byddwn yn ei ailgodi ac yn sicrhau ei fod yn rhan o'r pecyn cymorth atal.

*Faint o lety sydd wedi'i golli oherwydd bod llety rhent preifat yn cael ei dynnu oddi ar y farchnad i'w osod fel Air BnB? A yw hyn yn broblem gynyddol?*

Nid ydym yn ymwybodol o landlordiaid sy'n newid i Air BnB, ond dangosodd ein hastudiaeth flwyddyn yn ôl ddirywiad yn y farchnad. Adborth anecdotaidd a gaiff y tîm dewisiadau tai yw bod landlordiaid yn gwerthu. Felly'r teimlad yw bod y duedd ar i lawr, yn hytrach na bod y sefyllfa'n gwella.

*A oes unrhyw asesiad neu waith modelu wedi'i wneud ynghylch yr argyfwng costau byw arfaethedig, yn enwedig yr effeithiau hirdymor?*

Mae'r tîm Cymunedau a Phartneriaethau yn canolbwyntio ar y math hwn o fodelu, gan geisio deall y sefyllfa'n well. Mae modelu wrth wraidd y prosiect ailgartrefu cyflym; mae Llywodraeth Cymru yn gofyn i ni ddiffinio'r bwlch rhwng yr angen am dai a'r cyflenwad tai. Unwaith y byddwn wedi'i gwblhau, dylem gael nifer pendant o faint o eiddo rydym yn brin ohonynt, o ran digartrefedd, a bydd yn nifer i ni weithio tuag atynt yn adeiladol. Bydd gwaith ar dlodi a fforddiadwyedd yn llywio'r ffordd rydym yn diffinio'r bwlch.

*A fu unrhyw ddatblygiad ym menter Llywodraeth Cymru i brynu hen eiddo e.e. Mulberry House? Oni fyddem mewn sefyllfa well o lawer pe na bai'n rhaid i ni ddibynnu ar landlordiaid preifat, ond a allem adeiladu ein hunedau ein hunain?*

Trafodwyd Mulberry House o'r blaen mewn perthynas â'n cynllun gweithredu Gorfodi ym maes Eiddo Gwag, sy'n rhoi sefyllfa orfodi gryfach i ni os na fydd perchnogion yn rhyngweithio neu'n gweithio gyda ni'n briodol. Gallwn brynu eiddo yn uniongyrchol drwy'r llwybr hwnnw. Ond mae'r pwynt am y cyngor yn berchen ar lety a chael darpariaeth fwy uniongyrchol yn sgwrs allweddol sydd wedi bod yn digwydd ers peth amser. Mae'n cael ei hystyried o ddifrif, ac rydym wedi bod yn edrych ar lety gyda'r potensial hwnnw mewn golwg.

*A yw cynnydd mewn cyfraddau llog a chostau byw wedi'i gynnwys?*

Fyddwn ni ddim yn colli golwg ar hyn. Rydym wedi cael cyfnod o gyfraddau llog cymharol isel, ac nid yw adfeddiannu morgeisi yn nodwedd fawr o'n galw presennol. Cawn wybod amdanynt pan fyddant yn digwydd. Ond wrth symud ymlaen mae hyn yn rhywbeth i fod yn ymwybodol ohono, yn ogystal â chynnydd mewn biliau tanwydd a phwysau eraill yn y cartref.

**Crynodeb y Cadeirydd:**

Mae'r pwyllgor yn diolch i'r tîm am ei waith caled. Yn ogystal â'r prif gwestiynau, mae aelodau wedi mynegi pryder a yw nifer y tai yn y sir yn ddigonol ac wedi ailadrodd eu dymuniad i archwilio'r defnydd o eiddo gwag ar y stryd fawr ar gyfer tai i'r digartref a thai fforddiadwy. Gofynnodd y Cadeirydd i'r cynnydd mewn cyfraddau llog a chostau byw gael ei gynnwys yn yr adroddiad fel risg allweddol. Bydd y tîm yn dod â'r Cynnig Ailgartrefu Cyflym i'r pwyllgor nesaf.

5. **Monitro'r Gyllideb**

Cyflwynodd Tyrone Stokes a Jonathan Davies yr adroddiad ac ateb cwestiynau'r aelodau.

**Heriau:**

*Sut rydym yn rhagweld y sefyllfa o ran y grantiau a gawn ar gyfer y gyllideb gyffredinol?*

Mae'n anodd eleni, o ystyried faint o arian grant untro rydym wedi'i gael. Mae'r rhain wedi dod i mewn at ddiben penodol, gyda dyddiad dechrau a gorffen penodol. Roedd y diweddaraf ychydig o dan £1.25 miliwn i ariannu gorwariant mewn gofal cymdeithasol, a dyna pam mae'r gorwariant mewn gofal cymdeithasol i oedolion wedi'i ddileu bron yn gyfan gwbl o Fis 6-9. Mae grantiau eraill yn fwy hirdymor, megis grant Cynaliadwyedd y Gweithlu Gofal Cymdeithasol, y manylir arno fel rhan o bwysau'r gyllideb. Caiff grantiau tymor byr eu croesawu ond nid ydynt yn lleddfu'r pwysau hirdymor sydd gennym.

*Mae 2021/22 wedi bod yn anodd iawn. A fydd pethau ychydig yn fwy normal y flwyddyn nesaf? A ellid nodi'n gliriach yr hyn a gyflawnir drwy grant, h.y. wedi'u rhestru, yn yr adroddiadau? Pam gwneud cais am grant pan fydd yn golygu bod yn rhaid i ni wedyn ddod o hyd i'r arian o rywle arall i barhau â'r gwasanaeth ar ôl i gyfnod y grant ddod i ben?*

Mae gennym gofrestr gynhwysfawr o grantiau canolog, felly gallwn edrych ar sut rydym yn cofnodi hyn yn yr adroddiadau hyn. Mae sylwadau cyfarwyddwr y Prif Swyddog yn cyfeirio at yr effeithiau ar y grantiau hynny, gan ddweud y byddai'r sefyllfa ar y waelodlin £3 miliwn yn waeth heb y grantiau untro hynny. Weithiau caiff grantiau eu rhoi yn y fath fodd fel nad oes angen i ni wneud cais amdanynt. Mae wedi bod yn fwy cymhleth yn ystod Covid oherwydd bod y Gronfa Caledi Covid wedi cynnal llawer o feysydd ledled y cyngor - bydd symud i ffwrdd o hynny yn her sylweddol.

*Yn hytrach na grantiau, oni fyddai'n well cael mwy o gyllid craidd?*

Byddai, byddai hynny'n rhoi mwy o sefydlogrwydd ariannol i ni. Unwaith y bydd grant yn mynd, rhaid inni benderfynu a allwn gamu i lawr o'r gwariant hwnnw ai peidio, ynteu a oes angen i ni dalu'r gost honno o wasanaethau craidd. Mae'n her.

*Pa fath o arbedion a gafwyd, ac a allwn fod yn dawel ein meddwl na fyddant yn effeithio ar wasanaethau?*

Rhaid inni gymeradwyo'r gwasanaeth wrth ymdopi â Covid. Mae cyflawni'r arbedion sydd ganddo yn gyflawniad sylweddol. Rhaid i ni sicrhau nad oes unrhyw effaith ar y defnyddiwr terfynol. Wrth symud ymlaen, rydym yn gyfrifol wrth gyflwyno arbedion – nad ydym yn cyflwyno dim ar gyfer y flwyddyn nesaf, mewn gwirionedd, gan nad oes dim o'r rheiny ar ôl.

*O ran digartrefedd, bydd grant pellach tan fis Medi i helpu gyda llety Gwely a Brecwast ond beth fydd yn digwydd ar ôl hynny?*

Fel gyda gofal cymdeithasol, pan gaiff Cronfa Galedi Covid ei dileu ddiwedd y mis hwn, bydd yn her i barhau i gefnogi'r farchnad honno wrth symud ymlaen. Unwaith y daw'r gronfa i ben, mae ffyrdd eraill i ni eu harchwilio ar gyfer cyllid i'r digartref, o safbwynt refeniw. Mae'n rhy gynnar i ddweud a fydd y rheini'n diwallu'r holl bwysau ar gyfer y flwyddyn nesaf. Rydym wedi cynnwys £2 filiwn yn y gyllideb gyfalaf ar gyfer y flwyddyn nesaf, a gyflwynwyd fel buddsoddiad a fydd yn caniatáu i'r anghenion gael eu diwallu pan fyddwn yn dod ar draws sefyllfaoedd brys. Ond mae'n risg fydd yn parhau i'r flwyddyn nesaf a bydd angen ei monitro'n ofalus.

*Ar gyfer beth mae 'grant Pwysau'r Gaeaf heb ei gyllidebu'?*

Mae hyn yn cyfeirio at ddileu'r gorwariant o fis 6-9, fel y soniwyd yn gynharach. Roedd yn grant munud olaf a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer yr awdurdodau hynny yr oedd eu hadrannau gofal cymdeithasol yn rhagweld gorwariant. Rydym wedi elwa o hyn, gan fynd â ni o orwariant mewn gofal cymdeithasol i oedolion i lawr i danwariant bach, gan newid ein sefyllfa bron £1 filiwn mewn chwarter. Ond grant untro ydyw.

*Fydd angen llenwi swyddi gwag, o ystyried y pwysau ar adrannau?*

Unwaith eto, mae'n anodd cael gofalwyr ac rydym yn cystadlu â chontractwyr allanol. Ond, yn y bôn, nid oes digon o bobl am ymuno â'r sector gofal.

*Ydyn ni'n brin o staff?*

Nid swyddi gweithwyr cymdeithasol yw'r prif swyddi gwag ond staff gofal. Gan edrych yn ehangach yn y gyfarwyddiaeth ynghylch gofal cymdeithasol, yn y gwasanaethau i blant, er enghraifft, gweithwyr cymdeithasol yw'r prif swyddi gwag. Mae bob amser yn anodd recriwtio ar gyfer gwasanaethau plant. O ran gofal cymdeithasol i oedolion mae'r swyddi gweigion yn ymwneud yn bennaf â chael gofalwyr yn fewnol.

*Beth am salwch hirdymor ac ati?*

Mae hon yn her, yn enwedig mewn perthynas â Covid - Covid hir, cyfnodau o hunanynysu, ac ati. Mae'n rhaid i'r gofal barhau er bod y staff i ffwrdd. Weithiau mae'n rhaid i ni fynd at asiantaeth i sicrhau hyn, ond maent hwythau'n cael trafferth recriwtio gofalwyr hefyd.

**Crynodeb y Cadeirydd:**

Diolch yn fawr i'r swyddogion. Bydd y flwyddyn i ddod yn un anodd. Bydd gennym well syniad o'r hyn sydd i ddod erbyn i ni gymeradwyo'r gyllideb derfynol ym mis Gorffennaf, ac unwaith y daw'r grantiau i mewn ar gyfer 22/23, bydd gennym well syniad o ble y bydd y pwysau. Mae parhad y pandemig yn gwneud y darlun yn fwy cymhleth.

6. **<u>Cadarnhau cofnodion y cyfarfod blaenorol</u>**

Cafodd y cofnodion eu cadarnhau a'u llofnodi fel cofnod cywir, ac fe'u cynigiwyd gan y Cynghorydd Brown a'u heilio gan y Cynghorydd Edwards.

7. **<u>Blaenraglen Waith y Pwyllgor Dethol Oedolion</u>**

Bydd pethau'n newid rhywfaint os/pan gytunir ar strwythur newydd y pwyllgorau. Mae angen i'r mater o safleoedd Sipsiwn a Theithwyr aros ar yr agenda; mae'r darn hwn o waith yn mynd rhagddo.

8. **<u>Blaenraglen Waith y Cabinet, y Cyngor a'r ICMD</u>**

9. **<u>Cyfarfod Nesaf</u>**

Caiff ei gynnal ym mis Mehefin ond caiff ei benderfynu'n benodol unwaith y bydd dyddiadur newydd y Cyngor wedi'i gymeradwyo.